# Adolygiad Timms o PIP

## Cylch Gorchwyl

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn fudd-dal arian parod heb brawf modd sydd ar gael i bobl sydd mewn gwaith a phobl sydd allan o waith, yn awr ac yn y dyfodol. Dyna pam rydym yn lansio adolygiad ehangach o PIP, i wneud yn siŵr ei fod yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol mewn byd sy'n newid ac yn helpu i gefnogi pobl anabl i gyflawni gwell iechyd, safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth gan gynnwys trwy gyflogaeth.

**Rhesymeg yr Adolygiad**

Cyflwynwyd PIP gyntaf yn 2013, i ddisodli Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i oedolion. Mae dros ddegawd bellach ers i'r meini prawf asesu gael eu cynllunio ac mae llawer wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Er bod dau adolygiad annibynnol wedi cael eu gwneud o'r asesiad PIP yn 2014 a 2016, roedd y rhain yn canolbwyntio ar ansawdd a chysondeb gwneud penderfyniadau a'r broses o wneud cais. Nid yw PIP ei hun erioed wedi cael ei adolygu'n llawn.

Ers cyflwyno PIP, bu tueddiadau newidiol mewn cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd, yn ogystal â newidiadau yn y gymdeithas ehangach a'r gweithle. Mae bron i 10 miliwn o bobl o oedran gweithio yn anabl (23%), ac mae'r nifer hwn wedi tyfu bron i 3 miliwn ers 2013/14. Bu cynnydd mwy ym mhresenoldeb anabledd ymhlith pobl ifanc a chynnydd mewn cyflyrau iechyd meddwl.

Ochr yn ochr â hyn, mae nifer y ceisiadau PIP wedi tyfu'n sylweddol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2019, roedd 2 filiwn o bobl o oedran gweithio yn cael PIP. Tyfodd y nifer hwn 50% yn y pum mlynedd ganlynol, a disgwylir iddo fwy na dyblu o 2 filiwn i dros 4 miliwn o bobl erbyn diwedd y degawd. Mae mwy o bobl yn byw gydag anabledd, ond mae'r cynnydd yn y nifer sy'n cael budd-daliadau anabledd ddwywaith cyfradd y cynnydd ym mhresenoldeb ymhlith oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr. Mae cynnydd mewn ceisiadau wedi arwain at ddyblu gwariant ar PIP, o £11 biliwn yn 2019/20 i £22 biliwn ar gyfer hawlwyr o oedran gweithio y llynedd (gyda rhagolygon y bydd gwariant yn codi i dros £30 biliwn y flwyddyn erbyn 2029/30).

Rydym hefyd wedi amlinellu cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gael gwared ar yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA). Yn dilyn hynny, bydd yr asesiad PIP yn dod yn borth sengl ar gyfer budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd, gan roi pwyslais ychwanegol ar yr elfen hon o'r system. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'n hanfodol gall y cyhoedd, ac yn bwysicaf oll pobl anabl eu hunain, ymddiried yn nhegwch ac addasrwydd PIP. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y system yn gynaliadwy ac felly bydd gwaith yr Adolygiad yn gweithredu o fewn rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer gwariant PIP yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ei fod ar gael i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol. Rydym am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mor effeithiol â phosibl wrth gefnogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus.

Felly, rydym yn cynnal yr adolygiad ehangach hwn gyda'r nod o wneud yn siŵr bod PIP yn adlewyrchu realiti effaith cyflyrau pobl yn y byd modern yn deg. Bwriad PIP yw gwella annibyniaeth pobl. O ystyried y mewnwelediad y mae asesiadau'n ei roi ar yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu, rydym hefyd eisiau sicrhau nad yw'r Llywodraeth yn colli cyfleoedd i gysylltu pobl â system o gefnogaeth weithredol sy'n eu helpu i reoli ac addasu i'w cyflwr hirdymor neu anabledd mewn ffyrdd sy'n dileu rhwystrau i'w cynnwys mewn cymdeithas ac yn eu galluogi i gyflawni eu potensial. Yn y pen draw, bydd yr Adolygiad yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar gyfer penderfyniadau terfynol. Rydym wedi ymrwymo i adrodd canlyniadau'r Adolygiad i'r Senedd.

**Cwmpas**

Bydd yr Adolygiad yn cael ei arwain gan y Gweinidog dros Nawdd Cymdeithasol ac Anabledd, Syr Stephen Timms, a bydd yn cael ei gyd-gynhyrchu â phobl anabl, ynghyd â'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli, gofalwyr, clinigwyr, arbenigwyr, seneddwyr a rhanddeiliaid eraill, fel bod ystod eang o safbwyntiau a lleisiau'n cael eu clywed.

Bydd yr Adolygiad yn cynnwys ystyried:

• Rôl PIP – fel porth sengl y dyfodol i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd – wrth alluogi pobl anabl a'r rhai â chyflyrau hirdymor i fyw'n annibynnol a chymryd rhan lawn yn y gymdeithas.

• Y meini prawf asesu – gan gynnwys gweithgareddau, disgrifiadau a phwyntiau cysylltiedig – i ystyried a yw'r rhain yn dal effaith cyflyrau iechyd hirdymor ac anabledd yn y byd modern yn effeithiol. Bydd yr Adolygiad yn ystyried elfennau Bywyd Bob Dydd a Symudedd PIP.

• A ddylid ystyried unrhyw dystiolaeth arall ochr yn ochr â'r asesiad gweithredol i adlewyrchu'n deg effaith byw gyda chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau personol ac amgylchedd unigolion.

• Sut y gallai'r asesiad PIP ddarparu mynediad teg at y gefnogaeth gywir ar y lefel gywir ar draws y system fudd-daliadau.

• Pa rôl y gallai a dylai'r asesiad ei chwarae wrth ddatgloi cefnogaeth ehangach i gyflawni safonau byw uwch a mwy o annibyniaeth yn well.

**Egwyddorion**

Bydd sawl egwyddor allweddol yn sail i'r Adolygiad:

• Nod yr Adolygiad yw sicrhau bod PIP yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol – gan adlewyrchu realiti cyflyrau pobl a'u nodau a'u huchelgeisiau – gan ystyried newidiadau mewn cymdeithas ers iddo gael ei ddyfeisio a'i gyflwyno gyntaf.

• Bydd yr Adolygiad yn sicrhau bod PIP yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r system budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd, gan ddarparu cefnogaeth heb brawf modd i bobl sydd mewn gwaith a phobl sydd allan o waith, oherwydd gall unrhyw un gael ei effeithio gan gyflwr hirdymor neu anabledd.

• Bydd yr Adolygiad yn cael ei gyd-gynhyrchu â phobl anabl, y sefydliadau sy'n eu cynrychioli, gofalwyr, clinigwyr, arbenigwyr, seneddwyr a rhanddeiliaid eraill, fel bod ystod eang o safbwyntiau a lleisiau'n cael eu clywed. Bydd grŵp llywio craidd a fydd yn goruchwylio rhaglen aml-haen o gyfranogiad ac ymgysylltu ac yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth a ffynonellau i ddatblygu argymhellion. Bydd yr adolygiad yn ystyried diwygiadau eraill a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyrdd Llwybrau at Waith, sef y rhyngweithio â dileu'r WCA.

• Bydd yr Adolygiad yn ystyried gwaith cysylltiedig sydd ar y gweill ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach a budd-daliadau a gwasanaethau cysylltiedig eraill, gan gynnwys y comisiwn annibynnol i ofal cymdeithasol oedolion dan gadeiryddiaeth y Farwnes Louise Casey.

• Pwrpas yr Adolygiad yw sicrhau bod PIP yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol yn hytrach na chynhyrchu cynigion ar gyfer arbedion pellach. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd y system yn ystyriaeth bwysig ac felly bydd yr Adolygiad yn gweithredu o fewn rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer gwariant PIP yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ei fod ar gael i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

• Bydd yr Adolygiad yn ystyried sut y gellid cymhwyso argymhellion i ailasesiadau ar gyfer pobl sydd eisoes yn cael PIP i sicrhau ei fod yn deg ac yn addas ar gyfer hawlwyr newydd a rhai presennol.

Rydym wedi ymrwymo i gwblhau'r Adolygiad erbyn yr Hydref 2026. Bydd yr Adolygiad yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, fel y gall y Llywodraeth wedyn wneud unrhyw benderfyniadau sy'n deillio ohono. Gallai'r rhain fod ar ffurf newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, yn ogystal ag ystod o gamau gweithredu posibl nad ydynt yn ddeddfwriaethol.